Comisiwn Ystadegau

Adroddiad Blynyddol 2001-2002

I'w roi gerbron y Senedd gan yr Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys

Comisiwn Ystadegau / Statistics Commission
10 Greta George Street
London SW1P 3AE

Ffôn: +44 (0)20 7273 8008
Ffacs: +44 (0)20 7273 8019
Ebost: statscom@statscom.org.uk
Gwefan: www.statscom.org.uk

Cynnwys

	Tudalen
Rhagymadrodd y Cadeirydd	
Uchafbwyntiau'r flwyddyn	
Dull strategol y Comisiwn	
Datblygu cysylltiadau	
Hybu newid diwylliannol a chyfansoddiadol	
Pynciau a ystyriwyd gan y Comisiwn	
Ein rhan yn rhwydwaith fewnol Ystadegau Gwladol	
Adnoddau	
Edrych ymlaen 2002-03	
Atodiadau	
Atodiad A: Rhestr o adroddiadau	
Atodiad B: Y Comisiynwyr	
Atodiad C: Perfformiad yn erbyn amcanion 2001-02	
Atodiad CH: Rhestr dermau	

Rhagymadrodd y Cadeirydd

Dyma ail adroddiad blynyddol y Comisiwn Ystadegau, ac mae'n ymdrin â'r cyfnod o Ebrill 2001 i Fawrth 2002. Sefydlwyd y Comisiwn gan Ganghellor y Trysorlys yn ei swyddogaeth fel y Gweinidog dros Ystadegau Gwladol ym Mehefin 2000, ac roedd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn trafod yn bennaf creu corff hollol newydd, yn annibynnol o'r Llywodraeth, corff a oedd yn gweithio mewn modd agored a thryloyw, ac a oedd yn gallu cymryd golwg ddiduedd ar integriti a safon yr ystadegau a gynhyrchwyd gan adrannau llywodraeth. Bellach wedi bron i ddwy flynedd, gallwn sôn am gynnydd sylweddol o ganlyniad i'r trefniadau newydd ar gyfer Ystadegau Gwladol. Ond mae llawer iawn ar ôl i'w wneud, ac mae angen i ni sicrhau bod y newidiadau yn rhan annatod o arferion a diwylliant Llywodraeth.

Rhoddodd y Comisiwn lawer o bwysau, a llwyddo yn y pen draw, i gael cyhoeddi Côd Arferion drafft ar gyfer Ystadegau Gwladol. Mae hyn yn gynnydd gwirioneddol; rydym yn llongyfarch yr Ystadegydd Gwladol ar gael cydsyniad pob adran, ac rydym yn croesawu ei sicrhad y bydd Côd gweithredol mewn grym erbyn haf 2002. Bydd angen datganiadau arfer manwl yn fuan wedyn i gyd-fynd â hwn gan y gwahanol adrannau, a byddwn yn archwilio'r rhain cyn gynted â'u bod yn dod i'r fei.

Mae'n hanfodol bod cynnyrch ystadegol y Llywodraeth nid yn unig yn ddibynadwy ond hefyd yn amserol ac wedi ei addasu'n briodol at anghenion defnyddwyr, y tu mewn a'r tu allan i'r sector cyhoeddus. Rydym yn rhoi pwysigrwydd mawr ar ddeall yr anghenion yma, ac rydym wedi datblygu'n cysylltiadau â defnyddwyr yn ogystal ag ymateb i ymholiadau uniongyrchol. Mae rhai o'r cysylltiadau yma'n golygu cyfarfodydd rheolaidd gyda grwpiau trefnedig, ond rydym hefyd yn ystyried cyrff llai strwythuredig a'r rheiny sy'n dysgu am ystadegau cyhoeddus drwy'r cyfryngau. Un pwnc amlwg eleni oedd y Cyfrifiad, ac mae gwersi anodd yn deillio o hwn at y dyfodol.

Drwy'n holl waith, buom yn ddiolchgar am gydweithrediad yr Ystadegydd Gwladol, fel Pennaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac fel y swyddog â'r cyfrifoldeb yn y pen draw am holl ystadegau swyddogol y DU. Mae ganddo ef a'i gydweithwyr dasg anodd yn cynnal ansawdd ystadegau mewn cymdeithas sy'n newid yn gyflym, ac nid yw'n syndod bod y Comisiwn yn dod ar draws pethau i'w beirniadu, ond rydym yn unfryd y dylai penderfyniadau o fewn ein cymuned fod wedi eu seilio ar wybodaeth ystadegol gywir yn rhydd rhag ystumio gwleidyddol.

Tasg newydd i'r Comisiwn yn y flwyddyn sy'n dod yw cynghori Gweinidogion ynglŷn ag a oes angen Deddf Ystadegau i wneud yn siŵr bod y cynnydd a wnaed yn derbyn sêl bendith y Senedd ac nad yw mewn perygl o gael ei golli drwy ddamwain neu falais yn y dyfodol. Mae'r mater hwn yn gysylltiedig â rhai eraill a gododd yn ein gwaith, yn arbennig y mater o gyfrinachedd data personol.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn bu i ni:

- roi sylwadau ar Gôd Arferion a phrotocolau drafft Ystadegau Gwladol a chael addewid gan yr Ystadegydd Gwladol y byddai'r Côd yn weithredol erbyn haf 2002

- cryfhau ein perthynas â'r gymuned ddefnyddwyr drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd a mynychu a siarad â gwahanol gyfarfodydd defnyddwyr

- cwblhau cytundebau gyda phob gweinyddiaeth ddatganoledig i gael fwy neu lai yr un berthynas â'r un gyda Llywodraeth a Senedd y DU

- ymweld â phedair adran ac asiantaeth llywodraeth i ehangu cysylltiadau gyda chynhyrchwyr Ystadegau Gwladol, a gwneud cynnydd ar gyd-ddealltwriaeth o swyddogaeth y naill a'r llall

- rhoi ystyriaeth i 46 o gynigion gan ddefnyddwyr a budd-ddeiliaid eraill o'r tu allan i'r llywodraeth

    - ymateb i bynciau trafod y dydd, er enghraifft drwy godi cwestiynau am y newidiadau yn y ffordd y gosodwyd targedau ar gyfer cael gwared â cheiswyr lloches ac am gynlluniau i ddod i ben ag ystadegau am anghydfodau llafur

    - paratoi chwe adroddiad ymchwil:

        - Ystadegau Gwladol i Fonitro *Cynllun Canser yr NHS*: adroddiad am astudiaeth cyn-gwmpas
        - Adroddiad am Astudiaeth Gwmpasu ar Ddulliau Addasu Tymhorol yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol
        - Safbwyntiau'r Comisiwn Ystadegau ar Bynciau i'w Trafod yn Adolygiad Cyfrifon Rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol
        - Gweithredu'r *Adroddiad ar Adolygiad o Ddiwygiadau i'r Mynegai Enillion ar Gyfartaledd*: ystyriaeth y Comisiwn Ystadegau o adroddiad cynnydd y SYG
        - Mynediad at Ystadegau Gwladol ar Drafnidiaeth drwy'r We
        - Ystadegau Gwladol i Fonitro *Cynllun Canser yr NHS*: adroddiad am astudiaeth gwmpasu

    - rhoi sylwadau ar raglen waith lefel uchel Ystadegau Gwladol 2001-04.

- rhoi sylwadau ar adroddiad blynyddol Ystadegau Gwladol 2000-01.

Dull strategol y Comisiwn

Bu i ni barhau i ddatblygu a chyfleu ein dull strategol, gan gymryd ein cyfarwyddyd yn y *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol* i'n 'helpu i sicrhau bod Ystadegau Gwladol yn atebol i anghenion y cyhoedd' fel y man cychwyn. Mae'r DU yn ceisio datrys hen bryderon am ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ystadegau. Mae newid diwylliannol a chyfansoddiadol yn hanfodol os am adeiladu ar newidiadau cadarnhaol y blynyddoedd diwethaf, yn hytrach na'u newid neu eu gadael i bydru. Mae yna berygl gwirioneddol bod y momentwm yn cael ei golli.

Nodau

Nodau'r Comisiwn Ystadegau yw: gwneud yn siŵr bod Ystadegau Gwladol yn ddibynadwy ac yn berthnasol; a hybu'r newid diwylliannol a chyfansoddiadol sy'n sicrhau hyn i'r dyfodol.

Statws

Mae'r Comisiwn yn annibynnol o weinidogion a chynhyrchwyr Ystadegau Gwladol. Rydym yn gweithredu'n agored ac yn dryloyw, yn rhoi'n cyngor yn gyhoeddus i bawb.

Asesu'n llwyddiant

Byddai llwyddo i gyflawni'n nodau yn golygu bod gan Ystadegau Gwladol, integriti, perthnasedd a safon ac mai dyma'r ymwybyddiaeth ohonyn nhw.

Integriti: yn cynnwys ymwneud teg (er enghraifft mewn arferion rhyddhau) a pharhau gyda chyfresi allweddol, nid yn unig peidio 'ffidlo'. Mae ymddiriedaeth y cyhoedd yn integriti Ystadegau Gwladol yn mynnu bod y prosesau o wneud penderfyniadau yn eglur i bawb.

Perthnasedd: i *bob* defnyddiwr, nid yn unig y rheiny mewn Llywodraeth. Ni all Ystadegau Gwladol gwrdd â phob angen posibl am ddata ond dylent roi darlun cywir, diweddar, cynhwysfawr ac ystyrlon o'r economi a chymdeithas. Bydd hyn yn cefnogi ffurfio a monitro polisïau economaidd a chymdeithasol gan y Llywodraeth yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r dinesydd.

Ansawdd: mae cywirdeb yn bwysig ond mae mesur yn rhwym o fod yn amherffaith. Yr hyn sy'n bwysig yw bod defnyddwyr yn deall pa mor ddibynadwy yw'r ystadegau fel eu bod yn gallu barnu a ydynt yn addas i'r diben y'u bwriadwyd nhw ar ei gyfer. Mae ymddygiad da'n cymdeithas yn mynnu bod gan bawb fynediad at y wybodaeth sydd angen arnyn nhw i wneud penderfyniadau felly mae'n bwysig hybu defnydd eang a chytbwys o Ystadegau Gwladol. Rhaid i'r ystadegau eu hunain gael eu cyflwyno mewn ffordd ddealladwy.

Ail fesur o lwyddiant yw bod y ddadl gyhoeddus yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r ffigyrau'n ei ddweud am y gwir bynciau trafod ac nid y ffordd y mae'r ffigyrau'n cael eu cynhyrchu .

Sut yr ydym yn cyrraedd yno

Er mwyn cyflawni'r amcanion yma, rydym yn darparu cyngor strategol lefel uchel, i weinidogion ac eraill, ac mae'r cyngor hwn ar gael i'r gymuned gyfan. Mae'n cyngor yn gytbwys ac wedi ei seilio ar dystiolaeth ond ar yr un pryd mae'n cydnabod ac yn ymateb i faterion cyfredol yng nghymdeithas y DU. Mae goblygiadau hyn i'n dull yn cael eu hamlinellu isod.

Mae'n rhaglen waith yn crynhoi tystiolaeth ar bwyntiau penodol i gefnogi'n polisi a'n cyngor ar faterion cyffredinol. Weithiau caiff y meysydd eu dewis i adlewyrchu pryderon penodol a godwyd gyda'r Comisiwn a allai daflu goleuni ar faterion cyffredinol. Weithiau mae'r mater cyffredinol yn cael ei nodi gyntaf ac mae enghreifftiau penodol yn cael eu dewis i'w ddarlunio.

Rydym yn meithrin ac yn adeiladu ar ein cysylltiadau gyda defnyddwyr a chynhyrchwyr Ystadegau Gwladol, gyda darparwyr data crai a gyda'r gymuned ehangach. Mae'r cyfathrebu yma yn broses ddwy ffordd:

- deall eu safbwyntiau, fel rhan o gasglu tystiolaeth. Weithiau mae'r dystiolaeth hon yn canfod pynciau i'n sylw ni, weithiau mae'n gysylltiedig â materion yr ydym eisoes wedi penderfynu eu harchwilio

- cyfleu ein canfyddiadau a'n casgliadau iddyn nhw.

Rydym yn defnyddio ac yn datblygu'r cysylltiadau yma mewn ffordd sy'n ystyried, ond ddim yn tanseilio, proses ymgynghori'r Ystadegydd Gwladol.

Mae arwyddocad ehangach i'r pwynt olaf hwn. Mae pwyslais llawer o'n gwaith ar a oes gan yr Ystadegydd Gwladol y systemau cywir mewn grym ac a ydynt yn cynhyrchu'r canlyniadau angenrheidiol: ar gyfer sicrhad ansawdd; ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr a gyda chyflenwyr data crai; ac ar gyfer cynllunio a blaenoriaethu cywir. Nid ydym, ac ni ddylem, wneud y swyddogaethau yma drosto.

Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol
• wedi eu pennu fel Ystadegau Gwladol, holl gynnyrch ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a nifer o'r ystadegau o ddiddordeb cyhoeddus allweddol a gynhyrchwyd gan adrannau llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig
• amlinellu cyfrifoldebau'r Gweinidog dros Ystadegau Gwladol a gweinidogion eraill y mae eu hadrannau yn cyfrannu at Ystadegau Gwladol
• amlinellu swyddogaeth a chyfrifoldeb y Comisiwn Ystadegau i weithredu fel gwarchodwr annibynnol Ystadegau Gwladol

- amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Ystadegydd Gwladol a phenaethiaid proffesiwn am ystadegau mewn adrannau llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig sy'n cynhyrchu Ystadegau Gwladol

Roedd y Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol yn golygu newid mawr a chadarnhaol i ystadegau gwladol. Mae'r Côd Arferion Ystadegau Gwladol drafft a'r protocolau a ddisgwylir fydd yn sail iddo yn adeiladu ar hyn. Croesewir o'r diwedd y Côd a'r protocolau a ryddhawyd hyd yma, ond nid yw'r rhain yn berffaith ac mae angen gwneud mwy i roi'r trefniadau newydd yn eu lle yn llawn ac yn sicr. Mae'n gorchwyl i adolygu'r angen am ddeddfwriaeth ystadegau ar ôl dwy flynedd yn rhan o hyn, ond mae'r dasg yn ehangach. Byddwn yn asesu:

- beth sydd angen ei wneud yn rhagor
- beth sydd angen ei newid yng ngoleuni profiad a
- sut mae sicrhau'r cynnydd a wnaed yn barod.

Gall fod deddfwriaeth yn angenrheidiol ond mae'n annhebygol o fod yn ddigonol. P'un ai'n bod yn argymell deddfwriaeth ai peidio, mae'n bwysig rhoi'r Côd ar waith. Golyga hyn nid yn unig lythyren y Côd, ond yr ysbryd hefyd; mae'n rhaid i'r agwedd tuag at gynhyrchu ystadegau fod yn iawn.

Datblygu cysylltiadau

Mae cryfhau'n cyfathrebu gyda'r gymuned ystadegol a'r un ehangach wedi bod yn elfen bwysig barhaol o'n gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfathrebu hwn yn broses ddeublyg. Rhaid i ni ddeall safbwyntiau: defnyddwyr Ystadegau Gwladol, o fewn y llywodraeth ac yn ehangach; cynhyrchwyr Ystadegau Gwladol yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mewn adrannau llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig; cyflenwyr data crai; a'r gymuned ehangach, yn cynnwys y Senedd. Mae angen i ni hefyd gyfleu'n canfyddiadau a'n casgliadau iddyn nhw i gyd.

Rydym wedi symud ymlaen o seiliau'n adroddiad ym mis Rhagfyr 2000 *Adeiladu Cysylltiadau gyda Budd-ddeiliaid*. Yn ogystal â'r cyfarfod agored a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf i lawnsio adroddiad blynyddol y llynedd, rydym wedi cael ystod eang o gyfarfodydd a chysylltiadau eraill gyda grwpiau ac unigolion drwy gydol y flwyddyn. Dyma faes lle y gwnaethom ni gynnydd da erbyn diwedd y flwyddyn ond lle mae angen datblygiad parhaol. Rydym yn sylweddoli yr hoffai rhai defnyddwyr a chynhyrchwyr Ystadegau Gwladol ein gweld yn gweithredu fel rhywun all ymladd dros eu safbwyntiau nhw ac mae angen i ni barhau i wneud ymdrech i sicrhau, nid yn unig ein bod yn cymryd golwg gytbwys, ond ein bod hefyd yn llwyddo i egluro i bawb ein rhesymau dros wneud hynny.

Mae'n bwysig bod y Comisiwn yn gorff y gall pobl ysgrifennu ato pan fo ganddynt bryderon ac rydym yn treulio cryn dipyn o amser ym mhob cyfarfod o'r Comisiwn yn ystyried ymholiadau a dderbyniwyd. Gallai'n cwestiynau ni helpu i wneud yn siŵr bod pobl oedd yn haeddu ateb gan adran o'r llywodraeth yn ei dderbyn.

Defnyddwyr

Nid yw defnyddwyr Ystadegau Gwladol yn un grŵp cyffredinol. Rhan bwysig o'r trefniadau newydd oedd ei gwneud yn amlwg y dylid ystyried anghenion defnyddwyr yn y gymuned ehangach ochr yn ochr â rhai'r llywodraeth ei hun. Mae gan ddefnyddwyr y tu allan i'r Llywodraeth amrywiaeth eang o anghenion gwahanol. Mae gan y defnyddiwr cyffredinol neu ddinesydd, sy'n ceisio barnu gwasanaethau cyhoeddus, anghenion gwahanol i rai arbenigwr yn y maes pwnc sy'n chwilio am wybodaeth fanwl ar bwnc arbennig. Mae rhai defnyddwyr arbenigol yn gweithredu yn y fath fodd y gellid ystyried bod un neu ddau grŵp yn cynrychioli ystod eang o ddiddordebau. Mewn meysydd eraill nid yw hyn yn wir. Mae'n cysylltiadau gyda defnyddwyr wedi eu cynllunio i adlewyrchu hyn a hefyd hoffterau gwahanol ddefnyddwyr o ffyrdd gwahanol o gyfathrebu ac ymgynghori.

Yn ystod 2001 mynegodd sawl grŵp defnyddwyr y byddai'n well ganddynt fwy o ffurfioldeb a strwythur yn eu cyfathrebu gyda'r Comisiwn. Mewn ymateb i hyn rydym wedi sefydlu cyfarfodydd chwarterol rhwng cadeiryddion grŵp y Cyngor Defnyddwyr Ystadegau a chymysgedd o gomisiynwyr a staff. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o rai buddiannau defnyddwyr eraill fel tîm ymchwil llyfrgell Tŷ'r Cyffredin a'r Gymdeithas Ystadegau Frenhinol. Mae'r materion a drafodwyd yn y cyfarfodydd hynny yn cynnwys: ein rhaglen ymchwil, materion datgelu a chyfrinachedd i gyfrifiad poblogaeth 2001, Côd Arferion drafft Ystadegau Gwladol a'n dull strategol.

Mae'r cyfarfodydd rheolaidd hyn yn cael eu hategu mewn nifer o ffyrdd. Mae rhai grwpiau defnyddwyr fel y rheiny ar gyfer ystadegau trosedd a chyfiawnder a'r farchnad lafur, yn gweithredu'n aml ar sail 'rhith' ac felly mae'n well ganddynt gadw mewn cysylltiad â ni drwy ebost. Mae'n well gan gyrff eraill, fel y CBI, gyfarfodydd mwy pendant bob hyn a hyn.

Mae'r trefniadau yma yn cael eu hategu gan gyswllt *ad hoc* o wahanol fathau. Mae cynrychiolwyr o'r Comisiwn wedi mynychu gwahanol fathau o gyfarfodydd defnyddiwr yn cynnwys annerch cyfarfod o'r grŵp defnyddwyr trosedd a chyfiawnder a grŵp o'r Mudiad Asiantaethau Cyfrifiad. Mae'n hymchwilwyr wedi cyfweld defnyddwyr am eu hanghenion mewn meysydd penodol. Rydym hefyd yn croesawu mwy a mwy o ymholiadau uniongyrchol gan ddefnyddwyr unigol. Mae'r rhain wedi ein harwain at rai o'r pynciau penodol sy'n cael eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Nid ydym yn credu ei bod yn addas nac yn angenrheidiol sefydlu trefniadau cyswllt ffurfiol gyda defnyddwyr Ystadegau Gwladol o fewn y Llywodraeth, ond ysgrifennodd ein cadeirydd at ysgrifenwyr parhaol ym mis Hydref 2001 i ddweud ei fod ar gael pe byddent yn dymuno trafod unrhyw faterion cyffredinol am y ffordd y mae Ystadegau Gwladol yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr o fewn y Llywodraeth. Nid oedd neb eisiau derbyn y cynnig ar hyn o bryd ond roedd yr atebion yn dangos gwerthfawrogiad o'r trefniadau Ystadegau Gwladol ac awgrymodd sawl un gamau pellach. Yn dilyn hyn, rhoddodd ein prif weithredwr gyflwyniad i staff yr Adran Addysg a Sgiliau ac rydym yn edrych ymlaen i'r Asiantaeth Gwasanaethau Dadansoddol Amddiffyn (DASA) ymgynghori â ni fel rhan o'u hadolygiad bum mlynedd. Yng nghyd-destun prosiectau penodol mae'n hymchwilwyr wedi cyfweld â defnyddwyr llywodraeth ar bynciau penodol yn amrywio o'r Cyfarwyddwr Canser Clinigol Gwladol am ei anghenion ar gyfer monitro gweithredu Cynllun Canser y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i swyddogion yr Adran Diwydiant a Masnach am fynegeion a datchwyddwyr pris.

Mae anghenion a safbwyntiau'r cyhoedd yn ganolog i'n pryderon ond yn natur pethau nid yw mor hawdd cysylltu â nhw'n uniongyrchol. Rydym yn ceisio bod yn effro i'r perspectif hwn, yn cynnwys trwy'n profiad ein hunain o faterion polisi cyhoeddus a thrwy gysylltiadau personol, ac i gymryd cyfleoedd i ddeall safbwyntiau grwpiau fel defnyddwyr arbenigol perthnasol, newyddiadurwyr a'r Senedd. Mae hyn yn cysylltu'n agos â'n perthynas â'r gymuned ehangach a drafodir isod.

Cynhyrchwyr Ystadegau Gwladol

Mae'r cadeirydd yn cwrdd â'r Ystadegydd Gwladol bob chwarter i drafod materion pwysig fel y Cyfrifiad a'r Côd Arferion drafft, yn ogystal â phynciau mwy penodol fel yr adolygiad *Mynegai Enillion ar Gyfartaledd*. Yn sail i'r cyfarfodydd hyn y mae cyfarfodydd misol, a chyswllt *ad hoc* cyson ar lefel swyddogol. Yn ogystal â hyn, cyfarfu cadeirydd ac aelodau'r Comisiwn ddwy waith yn ystod y flwyddyn gyda Bwrdd Polisi'r SYG i ddysgu mwy am weithgareddau a safbwyntiau'r naill a'r llall.

Dilynwyd ein hymweliadau â safleoedd y SYG y llynedd gyda rhaglen o ymweliadau ag adrannau eraill sy'n cynhyrchu Ystadegau Gwladol. Roedd ein hymweliad cyntaf â DASA, ac yna aethom i weld yr Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR) a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) lle y gwelsom y gwaith sy'n cyd-fynd ar safleoedd Llundain a Newcastle. Buom hefyd yn Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd

Iwerddon (NISRA) a gweld sut y mae Ystadegau Gwladol yn cael eu cynhyrchu yn usn o'r gweinyddiaethau datganoledig.

Rhoddodd y Cadeirydd anerchiad i gynhadledd staff uwch Gwasanaethau Ystadegau'r Llywodraeth ym mis Tachwedd 2001. Rhoddodd y prif weithredydd gyflwyniadau am ein gwaith i staff yn y DfES a'r Adran Datblygu Rhynglwadol ac mae'n cadw cysylltiadau anffurfiol gyda phenaethiaid proffesiwn ar gyfer ystadegau yn ein gwaith o ddydd i ddydd yn cynnwys ein dull o gasglu ymchwil a gwybodaeth.

Rydym hefyd wedi cynllunio ymweliadau yn gynnar yn 2002-03 â'r Adran Iechyd ac Adran Weithredol yr Alban.

Mae cysylltiadau agos gyda chynhyrchwyr yn hollbwysig ond mae'r un mor hanfodol ein bod yn aros yn annibynnol ohonynt. Mae yna, ac fe ddylai fod, densiwn adeiladol ymhlyg yn y berthynas hon. Rydym yn dibynnu ar y flaenoriaeth y gall Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ei rhoi i'n cwestiynau ac weithiau rydym wedi gorfod aros yn hwy nag yr hoffem. Bu i ni adlewyrchu'n pryderon am ansawdd a phrydlondeb yr atebion a gawn i'n cwestiynau yn ein tystiolaeth lafar i Is-bwyllgor y Trysorlys. Mae'n swyddogaeth fel gwarchodwr yn golygu bod yn rhaid i ni allu herio'r Ystadegydd Gwladol ac weithiau mae'n rhaid i ni gymryd golwg feirniadol ar yr hyn y mae'n ei wneud.

Cyflenwyr data crai

Mae ansawdd Ystadegau Gwladol yn dibynnu'n llwyr ar ddealltwriaeth a chydweithrediad y cyrff a'r unigolion hynny sy'n cyflenwi'r data crai y maent wedi eu seilio arno. Er y gall gofynion gwybodaeth ac yn wir, mi ddylen nhw cyn belled ag y bo modd, adlewyrchu eu hanghenion a'u buddiannau gwybodaeth rheoli, nid yw hyn yn bosibl bob amser. Mae disgwyl iddynt, weithiau mae'n gyfreithiol orfodol arnynt, gyfrannu'n ehangach ac mae eu cydweithrediad parod yn hollbwysig os am gasglu data cywir. Ar yr un pryd mae'r perchennog busnes bach unigol sy'n poeni am y gwaith papur yn llai tebygol o allu rhoi ei amser i ymgynghori ar faterion o'r fath.

Mae hyn yn ei gwneud yn anodd, ond hyd yn oed yn fwy pwysig, i gynhyrchwyr Ystadegau Gwladol gymryd barn cyflenwyr i ystyriaeth, ac felly mae'n her i ni gasglu'r sail dystiolaeth i farnu pa mor llwyddiannus y maent yn gwneud hynny heb osod baich ychwanegol. Rydym felly wedi osgoi prosesau ffurfiol ond mae'n staff wedi cael nifer o drafodaethau gyda chyrff sy'n cynrychioli busnes fel y CBI, Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Siambrau Masnach Prydeinig ac wedi ysgrifennu erthygl i *IoD Policy* a arweiniodd at sawl un yn mynegi barn.

Mae hyn i gyd wedi atgyfnerthu'n barn am bwysigrwydd y maes hwn a chredwn bod gennym ni a'r Ystadegydd Gwladol fwy i'w wneud yma:

- cafodd ein gallu i ystyried costau cydymffurfio wrth roi sylwadau ar y rhaglen lefel uchaf gyntaf i Ystadegau Gwladol ei lesteirio gan y wybodaeth gyfyngedig iawn yr oedd yr Ystadegydd Gwladol yn gallu ei rhoi bryd hynny

- un pwynt sy'n dod yn fwyfwy clir i ni yw nad yw hi'n ddigon canolbwyntio'n unig ar fesur costau cydymffurfio; mae'r baich go iawn a'r un a ddychmygir ar gyflenwyr data

yn fwy cymhleth na hyn ac mae ei leihau yn gofyn am ddealltwriaeth dda o safbwynt y cyflenwyr yn ogystal.

Wrth gwrs nid busnesau yw unig gyflenwyr data crai. Mae gan aelwydydd ac amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus ran hefyd. Yn ein gwaith ar Gyfrifiad poblogaeth 2001 (gweler isod) rydym yn archwilio barn sampl o'r cyhoedd a lenwodd y ffurflenni.

Y gymuned ehangach

Mae ystadegau dibynadwy a pherthnasol yn bwysig i'r ffordd y mae cymdeithas ddemocrataidd fodern yn gweithio. Rydym yn ceisio deall safbwyntiau'r gymuned ehangach mewn nifer o ffyrdd.

Mae Pwyllgor Trysorlys Tŷ'r Cyffredin yn fudd-ddeiliad pwysig mewn Ystadegau Gwladol ac mae'n cynrychioli'r gymuned ehangach mewn nifer o ffyrdd. Yn hydref 2001 cawsom ein gwahodd i roi tystiolaeth ar Gyfrifiad 2001 yng Nghymru a Lloegr, a chawsom ein holi hefyd am faterion ehangach oedd yn gysylltiedig â blwyddyn gyntaf Ystadegau Gwladol. Mynegodd y cadeirydd ei anfodlonrwydd â'r cynnydd hyd yma, yn arbennig yr oedi parhaol i'r Côd Arferion a oedd, yn ei dyb ef, yn bwrw amheuaeth ar ymrwymiad y Llywodraeth i'r *Fframwaith Ystadegau Gwladol*.

Mae'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol yn hybu defnydd cyhoeddus ystadegau yn ogystal â bod yn gorff proffesiynol i ystadegwyr. Mae'n cynrychioli nifer o fuddiannau defnyddiwr yn cynnwys, er enghraifft, rhai'r gymuned academaidd ac mae'n cydweithredu â grwpiau defnyddiwr eraill, ond mae iddo hefyd swyddogaeth ehangach. Rydym yn gweithio gyda'r gymdeithas mewn sawl ffordd: siaradodd ein cadeirydd, ochr yn ochr â'r Ystadegydd Gwladol, mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan y Gymdeithas i drafod y Côd Arferion Ystadegau Gwladol drafft; mae'r Gymdeithas yn trefnu cyfarfod o arbenigwyr rhyngwladol i lywio'n ystyriaeth o faterion deddfwriaeth ystadegol; ac mae yna gyswllt rheolaidd ar lefel swyddogol yn cynnwys mynychu nifer o gyfarfodydd y Gymdeithas.

Mae'r Ysgrifennydd Economaidd i'r Trysorlys[1] hithau yn fudd-ddeiliad fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y SYG ac yn ddefnyddiwr ystadegau economaidd. Roedd yn bleser gennym felly ei chyfarfod pan ymwelodd hi â'r cadeirydd yn ein swyddfeydd ym mis Hydref 2001 a chwrdd â nifer o gomisiynwyr a staff.

Fel y nodwyd gennym yn ein adroddiad blynyddol diwethaf roedd y *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol* wedi gadael ein swyddogaeth mewn perthynas ag Ystadegau Gwladol a gynhyrchir gan weinyddiaethau datganoledig i'w gadarnhau. Ym Mawrth 2001 cawsom wahoddiadau gan ddwy o'r gweinyddiaethau datganoledig i ymwneud â nhw fwy neu lai yn yr un modd ag y gwnawn â llywodraeth a Senedd y DU. Roeddem yn falch i dderbyn yr un neges gan y trydydd ym mis Mai. Fel ag y nodwyd uchod, ymwelasom â NISRA ac rydym yn cynllunio ymweliad tebyg â'r Pwyllgor Gwaith Albanaidd. Rydym hefyd wedi cyfieithu'n adroddiad blynyddol i'r Gymraeg. Nid ydym eto wedi lawnsio unrhyw brosiectau ymchwil penodol i weinyddiaeth ddatganoledig unigol ond mae'n gwaith ar GDP rhanbarthol, er enghraifft, o ddiddordeb arbennig i ddefnyddwyr yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

[1] Mae cyn Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys bellach yn Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys ond mae'n cadw'i chyfrifoldeb dros y SYG.

Hybu newid diwylliannol a chyfansoddiadol

Roedd y *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol* yn golygu newid mawr a chadarnhaol i ystadegau swyddogol. Mae'r Côd Arferion drafft yn adeiladu ar hynny. Rhaid gwneud mwy fodd bynnag, ac mae angen newid diwylliannol a chyfansoddiadol i sicrhau cynnydd y blynyddoedd diwethaf yn y tymor hirach. Gall deddfwriaethu ar ystadegau fod yn rhan o'r ateb, ond dim ond rhan. Rhaid i agweddau newid tuag at integriti, perthnasedd ac ansawdd ystadegau, anghenion defnyddwyr a'r rhyngweithio rhwng gwahanol aelodau'r gymuned ystadegau os nad ydym am golli'r momentwm. Roedd yna ddwy gainc i'n gwaith y llynedd wrth i ni fynd ar ôl yr amcan cyffredinol hwn.

Côd Arferion drafft Ystadegau Gwladol

Yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf fe fynegom ni ein siom fawr nad oedd y Côd Arferion drafft wedi ei gyhoeddi. Cyhoeddwyd y drafft o'r diwedd ym mis Rhagfyr 2001 ac fe gyflwynom ni ein sylwadau yn croesawu'r Côd drafft. Mae'n gam mawr ymlaen i gael dogfen y mae'r Llywodraeth gyfan yn ei chefnogi, - yn gymaint o newid ag yw sefydlu brand Ystadegau Gwladol a swyddogaethau'r Ystadegydd Gwladol a'r Comisiwn Ystadegau. Rydym yn poeni bod amrywiol brotocolau i'w datblygu o hyd ac mae angen cryn dipyn o waith ar y Côd o hyd, ond rydym yn cefnogi'n gryf fwriad arfaethedig yr Ystadegydd Gwladol i gael rhywbeth yn ei le erbyn Mehefin 2002 er mwyn cael mesur ymarfer yn ôl hwn.

Gyda'r Ystadegydd Gwladol, byddwn yn edrych ar y ffordd orau i'w gefnogi yn ei swyddogaeth orfodi.

Crynodeb o sylwadau penodol ar
Gôd Arferion drafft Ystadegau Gwladol

- Mae'r Comisiwn yn cymeradwyo negeseuon y 10 egwyddor lefel uchel a dull yr Ystadegydd Gwladol o roi protocolau manwl yn sail i'r rhain. Rydym yn poeni, fodd bynnag, bod nifer o ddogfennau ategol eraill yn dal ar y ffordd.

- Rhaid i'r holl ddogfennau fod yn hawdd eu darllen ac yn ddealladwy i bawb.
  Rhaid cael cysondeb iaith. Mae'n arbennig o bwysig gwneud yn eglur beth sy'n orfodol a beth sy'n ddymunol. Mae'r syniad o'r brand Ystadegau Gwladol yn gryf ond heb ei fynegi'n llawn.

- Mae bodolaeth y Côd yn golygu cam mawr ymlaen mewn bod yn agored ond mae mwy ar ôl i'w wneud.
  Nid yw'n eglur a fydd neu sut y bydd 'eithriadau' yn cael eu cyhoeddi pan fyddant yn digwydd. Dylent gael eu gwneud yn agored i'r cyhoedd.

- Nid yw'r Côd drafft yn edrych yn benodol ar faterion gorfodaeth, gweithredu, ac atebolrwydd am y rhain.
  Yn ei hanfod mae'n gosod y prif gyfrifoldeb dros orfodi a gweithredu'r Côd ar yr Ystadegydd Gwladol. Credwn bod hyn yn gywir ond mae angen i ni edrych ar i ba raddau y gall ef fod yn atebol yn y pen draw am weithredoedd cynhyrchwyr mewn adrannau llywodraeth eraill a rhai swyddogion a gweinidogion eraill.

- **Protocol Arferion Rhyddhau drafft**: rydym yn croesawu'r cam mawr hwn ymlaen mewn tryloywder ond nid yw'n ddigon.
  Dylai rhestrau cyhoeddus o'r rheiny sydd â chyrchfraint fod yn berthnasol i bob cyfres, dylid cyhoeddi newidiadau i derfynau amser arferol am fynediad cynnar a dylid hysbysu'r Comisiwn am unrhyw ryddhau anghywir neu ddamweiniol a'r camau a gymerwyd.

- **Protocol drafft ar gyfer Trefniadau Ymgynghori rhwng yr Ystadegydd Gwladol a Gweinidogion**: rydym yn croesawu'r protocol hwn fel un sy'n cyflwyno rhywfaint o dryloywder mewn maes pwysig, ond hoffem i'r protocol fynd ymhellach.
  Dylai'r trefniadau arbennig ar gyfer rhan y Canghellor yn y Mynegrif Prisiau Adwerthol gael eu hamlinellu yma neu dylid gwneud cyfeiriad at ddogfen arall lle maent yn cael eu hegluro. Credwn y dylai fod cofrestr cyhoeddus neu gofnod tebyg arall o achosion pryd yr ymgynghorir â gweinidogion am 'gynigion sy'n gwrthdaro â pholisi llywodraeth'.

Yr angen am ddeddfwriaeth ystadegau

Wrth atgyfnerthu'r angen am y Côd roeddem yn pwysleisio pwysigrwydd cael fframwaith gyfansoddiadol gadarn sy'n atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth ddatblygu Ystadegau Gwladol a sy'n gosod sylfaen y gellir gwneud cynnydd pellach arno.

Roedd y *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol* yn gofyn i ni adolygu'r angen am ddeddfwriaeth ystadegol ar ôl dwy flynedd ac adrodd yn ôl i'r Gweinidog Ystadegau Gwladol. Er nad yw'r adolygiad yn cychwyn tan fis Mehefin, rydym wedi bod yn nodi gwaith sy'n sail iddo. Rydym yn paratoi dogfen ymgynghorol i sefydlu materion allweddol. Mae ymchwil i adeiladu'n sail gwybodaeth yn cael ei gomisiynu. Mae cydbwysedd y dadleuon a glywyd hyd yma yn gryf o blaid deddfwriaeth, ond nid ydym am farnu'r mater

ymlaen llaw a byddwn yn mynd at ein tasg gyda meddwl agored, gan edrych ar bob ffordd bosibl i sicrhau cynnydd y blynyddoedd diwethaf.

Pynciau a ystyriwyd gan y Comisiwn

Mae gwaith archwiliadol y Comisiwn, sy'n darparu tystiolaeth i gefnogi'n polisi a'n cyngor, yn cymryd nifer o ffurfiau. Mae'r rhaglen archwilio ac ymchwil yn cynnwys prosiectau ystyriol, a wnaed yn fewnol neu gan ymgynghorwyr, weithiau'n canolbwyntio ar bynciau arbennig, ond fel arfer wedi eu cynllunio i daflu goleuni ar faterion ehangach.

Mae'n staff hefyd yn gwneud archwiliadau graddfa-fechan, fel arfer wedi eu sbarduno gan bryderon a fynegwyd gan rai'n gohebu neu yn y wasg, i edrych ar faterion penodol wrth iddynt godi. Yn fwyfwy gwelir nad yw'r ffin rhwng y ddau yn un bendant ond rydym yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a rydd hyn i ni, yn caniatau i ni ymateb i faterion cyfoes o sail dystiolaeth gadarn.

Y rhaglen archwilio ac ymchwil

Mae prosiectau'n cael eu lawnsio drwy'n rhaglen archwilio ac ymchwil lle mae'r angen am ymchwil ystyrlon wedi ei ganfod. Gall y gwaith hwn fod naill ai â sail eang neu'n benodol, lle y gellid dysgu gwersi cyffredinol. Dewiswyd ystod cyferbyniol o bynciau, a'n galluogodd i barhau i roi cynnig ar ffyrdd gwahanol o weithio.

Wrth ddewis y pynciau i'w hastudio rydym yn chwilio am gydbwysedd ar draws meysydd pwnc a rhwng materion technegol a'r rhai sy'n fwy uniongyrchol gysylltiedig â pholisi cyhoeddus, yn ogystal ag ymateb i faterion cyfoes. Rydym yn tueddu i ganolbwyntio ar feysydd sy'n her arbennig i'r Ystadegydd Gwladol, yn hytrach nag anelu at wneud popeth yn llawn. Golyga hyn ein bod yn debygol o fod yn astudio neu'n canfod mannau gwan. Ond os yw Ystadegau Gwladol i gwrdd â'r safonau uchaf, mewn meysydd ymestynnol y gallwn ni ychwanegu'r gwerth mwyaf.

Ymchwil a gwblhawyd:

Cwblhawyd gennym chwe adroddiad ymchwil yn trafod pum pwnc yn y flwyddyn. Mae'r ymchwil hwn, y gwaith sy'n mynd rhagddo a drafodir yn nes ymlaen yn y bennod, a'n lefel gynyddol o weithgareddau casglu gwybodaeth yn pwyntio at nifer o bynciau croestoriadol:

- cadarnhau'r berthynas hanfodol rhwng Ystadegau Gwladol a thargedau'r llywodraeth. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn un syml ac mae nifer o dargedau nad ydynt yn derbyn cefnogaeth Ystadegau Cenedlaethol. Bydd angen i ni edrych ar hyn yn y dyfodol.

- atgyfnerthu'r angen am fethodoleg gadarn fel sail i ansawdd Ystadegau Gwladol. Mae cynnydd da yn digwydd mewn sawl agwedd o hyn ond mae mwy i'w wneud. Rydym yn cefnogi'r Ystadegydd Gwladol yn y flaenoriaeth y mae'n rhoi i hyn

- pwysleisio pwysigrwydd deall anghenion defnyddwyr. Nid mater o osod blaenoriaethau a chynllunio yw hyn yn unig ond hefyd deall yr effaith ar ddefnyddwyr o ddiwygio ffigyrau, neu newidiadau i drefniadau lledaenu gwybodaeth.

- canfod y sialensau mawr sydd o'n blaen i wneud yn siŵr bod peryglon cyfrinachedd yn cael eu rheoli fel sydd angen ar gyfer cynnydd mewn data manwl a bod gwell technoleg yn ei gwneud yn ymarferol i gwrdd â'r anghenion hynny.

Defnyddio addasu tymhorol yn y SYG

Dewiswyd y pwnc hwn yn rhannol oherwydd ei bwysigrwydd cynhenid i amrywiaeth sylweddol o ystadegau economaidd, ond hefyd fel enghraifft o fater technegol/methodolegol a oedd yn berthnasol i nifer o ganlyniadau Ystadegau Gwladol.

Mae'r Athro Wallis, a wnaeth yr astudiaeth ar ein rhan, yn arbenigwr rhyngwladol ar y pwnc. Daeth ef i'r casgliad nad oedd angen i ni gynnal astudiaeth sylweddol o'r gweithdrefnau addasu tymhorol oedd yn cael eu defnyddio yn y SYG ar y pryd oherwydd y datblygiadau diweddar ac arfaethedig. Nododd feysydd i'w dilyn yng ngwrs gwaith ehangach. Argymhellodd hefyd ein bod yn dychwelyd i'r cwestiwn o astudiaeth fer bellach neu astudiaeth fwy sylweddol yn y maes hwn ar ôl i adolygiad trawsdoriadol o'r defnydd o ddulliau addasu tymhorol gael ei wneud fel rhan o'r Rhaglen Adolygu Sicrhad Ansawdd bum mlynedd i Ystadegau Gwladol. Derbyniodd y Comisiwn ei argymhellion.

Rydym yn cefnogi cyfeiriad yr Ystadegydd Gwladol yma ac yn cydnabod y bydd cyflymdra'r cynnydd yma, fel mewn llefydd eraill, yn cael ei gyfyngu gan pa mor gyflym y gellir datblygu rhwydwaith fewnol i ystadegau.

Ansawdd amcangyfrifon GDP Rhanbarthol

Mae yna fwy a mwy o angen am, a phwyslais ar, ddata islaw'r lefel genedlaethol. Cynhyrchu data o'r fath yw un o'r materion mwyaf pwysig i Ystadegau Gwladol ar hyn o bryd. Yn ogystal â dangos bod angen cynhyrchu amcangyfrifon mwy datgrynhöol, mae hyn yn codi cwestiynau am addasrwydd yr amcangyfrifon presennol, fel yr amcangyfrifon o lefel y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) rhanbarthol lle'r oedd eu defnydd gwreiddiol o bosibl yn gofyn am lai na'r anghenion presennol. Mae amcangyfrifon GDP rhanbarthol bellach yn cael eu defnyddio mewn nifer eang o gyd-destunau, yn cynnwys dyrannu cronfeydd strwythurol yr UE a thargedau cytundeb gwasanaeth cyhoeddus (PSA) ar gyfer twf rhanbarthol, yn ogystal â bod yn bwysig i weinyddiaethau datganoledig.

Gwnaethom astudiaeth fer i ganfod y materion craidd y dylid ymdrin â hwy yn adolygiad ansawdd cyfrifon rhanbarthol Ystadegau Gwladol a gynlluniwyd i'w raglen yn 2001-02.

Barn y Comisiwn Ystadegau ar y pynciau yr ymdrinir â hwy yn adolygiad cyfrifon rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Fel rhan o'r adolygiad hwn dylai'r SYG ystyried y pynciau canlynol:

- cyfleu pa mor ddibynadwy/manwl gywir yw amcangyfrifon GDP Rhanbarthol
- cyfraniad posibl barn defnyddwyr y tu allan i'r SYG ar y fethodoleg/rhagdybiaethau sy'n cael eu defnyddio gan y SYG
- cynhyrchu amcangyfrifon chwarterol o GDP Rhanbarthol
- gwella dealltwriaeth o GDP Rhanbarthol drwy sylwebu ar ddata sylfaen

- addasu data GDP Rhanbarthol i ddatchwyddwyr GDP gwahaniaethol.

Roeddem yn falch bod y SYG wedi cadarnhau y byddai'n edrych ar y pedwar cyntaf o'r rhain ond ei fod yn anfoddog i archwilio'r angen am ac ymarferoldeb cynhyrchu datchwyddwyr GDP rhanbarthol oherwydd cyfyngiadau adnoddol. Deallwn bod yr adrannau sy'n cael eu heffeithio fwyaf yn ystyried cyfrifo'u hamcangyfrifon eu hunain fel eu bod hwy a'r gymuned ehangach yn gallu asesu cynnydd tuag at eu targedau GDP rhanbarthol. Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau'r gwaith ond rydym yn nodi bod hyn yn codi cwestiynau am y trefniadau ar gyfer blaenoriaethu a sicrhau ansawdd gwaith technegol o'r math hwn.

Gweithredu'r *Adolygiad o'r Diwygiadau i'r Mynegai Enillion ar Gyfartaledd*

Cafodd yr *Adolygiad o'r Diwygiadau i'r Mynegai Enillion ar Gyfartaledd* a gyhoeddwyd yn 1999 (Adroddiad Turnbull-King) ddylanwad mawr ar ddatblygiad trefniadau newydd Ystadegau Gwladol. Gwnaeth nifer o argymhellion, rhai ohonynt yn ymdrin yn benodol â chynhyrchu'r Mynegai ac eraill oedd yn berthnasol yn gyffredinol i reoli ystadegau swyddogol.

Gofynnom i'r SYG i adael i ni gael adroddiad ar y cynnydd mewn gweithredu'r argymhellion. Bu cryn amser cyn i ni gael adroddiad llawn. Roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi eu gweithredu'n foddhaol ond nid pob un. Yn arbennig:

- roedd rhai o'r argymhellion technegol tymor hir wedi bod yn fwy cymhleth nag a ragdybiwyd yn wreiddiol ac nid oeddem wedi gallu cael amserlen glir ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn

- nid oedd rhai o'r argymhellion cyffredinol a llai technegol wedi eu gweithredu'n llawn. Yn arbennig, roedd yna fwlch rhwng derbyniad cyhoeddus Argymhelliad 1 ar gyn-gyhoeddiad datganiadau ychwanegol a'r ffordd gyfyng iawn y cafodd ei weithredu.

Wrth ystyried yr adroddiad cynnydd rydym wedi codi cwestiynau sy'n ymwneud ag Ystadegau Gwladol yn fwy cyffredinol. Mae trefniadau ymarfer datganiad clir a thryloyw yn hanfodol ar gyfer integriti Ystadegau Gwladol. Mae ansawdd Ystadegau Gwladol yn dibynnu ar allu eu cynhyrchwyr i ddilyn a gweithredu casgliadau adolygiadau methodolegol. Gwnaethom argymhellion am gamau i wynebu'r rhain a phwyntiau penodol eraill.

Casgliadau Gweithredu'r *Adolygiad o'r Diwygiadau i'r Mynegai Enillion ar Gyfartaledd*

Daethom i'r casgliad, er bod cynnydd da wedi ei wneud mewn gweithredu sawl agwedd o'r *Adolygiad*, bod mwy angen ei wneud. Bu yna ddiffyg tryloywder difrifol am drafod cyhoeddiadau nas cynlluniwyd o'r diwygiadau, ac nid oedd yn ymddangos bod unrhyw drefniadau clir mewn grym ar gyfer sicrhau bod gweithredu'r *Adolygiad* yn ei gyfanrwydd yn cael ei gwblhau. Yn arbennig dylai'r Ystadegydd Gwladol:

- roi trefniadau eglur mewn grym i sicrhau monitro a rheoli priodol o weithredu'r argymhellion sydd ar ôl o'r *Adolygiad* hwn a gweithredu argymhellion Adolygiadau Ansawdd Ystadegau Gwladol
- cyhoeddi amserlen wedi ei diweddaru ar gyfer gweithredu'n llwyr yr argymhellion sy'n weddill o'r *Adolygiad*
- gweithredu Argymhelliad 1 neu gyhoeddi eglurhad clir i ddefnyddwyr am pam nad yw'n credu y dylai gael ei weithredu
- ymestyn gweithdrefnau terfynu ffurfiol tryloyw i ymdrin â holl gynnyrch y SYG
- sefydlu cofrestr gyhoeddus o adegau pan mae'r SYG wedi rhoi gwybodaeth i weinidogion neu i Fanc Lloegr yn gynt nag arfer er mwyn caniatau ymgynghoriad
- gosod amserlen glir ar gyfer dogfennu dulliau adeiladu data'r SYG i'r graddau lle y gall dogfennaeth o'r fath fod ar gael i bobl o'r tu allan dros y Rhyngrwyd.

I ddechrau roeddem yn siomedig gydag ymateb yr Ystadegydd Gwladol, ond rydym yn falch ei fod bellach wedi gallu egluro sut mae'n bwriadu symud ymlaen gydag argymhellion eraill adroddiad Turnbull-King.

Ystadegau Gwladol i fonitro *Cynllun Canser yr NHS*

Pwrpas yr astudiaeth hon oedd edrych ar pa mor ddigonol oedd Ystadegau Gwladol i fonitro *Cynllun Canser yr NHS* ac i argymell a oedd angen ymchwiliad pellach gan y Comisiwn. Roedd sawl rheswm dros ddewis hwn yn cynnwys y lefelau uchel o bryder am ofal canser a'r gydnabyddiaeth bod angen i bolisi fod wedi ei gwreiddio mewn ffeithiau. Roedd hefyd eisiau tynnu gwersi am y defnydd o Ystadegau Gwladol i fonitro gweithredu polisi.

Nododd yr adroddiad bod monitro newid mawr fel *Cynllun Canser yr NHS* yn gosod her sylweddol, sy'n gofyn am wella cryn dipyn ar y systemau gwybodaeth presennol a bod y gwaith wedi ei orffen, ar y gweill neu yn yr arfaeth mewn nifer o ardaloedd. Er nad yw llawer o'r gwaith hwn wedi dwyn ffrwyth eto daeth i'r casgliad nad oedd angen ymchwiliad pellach gan neu ar ran y Comisiwn ar yr adeg honno ond y dylem edrych ar y cynnydd yn 2003. Mi roedd fodd bynnag yn gwneud rhai argymhellion penodol.

Argymhellion yr astudiaeth cwmpasu ar Ystadegau Gwladol i fonitro *Cynllun Canser yr NHS*

Argymhellodd yr astudiaeth y dylai'r Adran Iechyd barhau i roi blaenoriaeth i waith i sicrhau y gallai gweithredu a chyflawni amcanion, ymrwymiadau, gweithredoedd a cherrig milltir *Cynllun Canser yr NHS* gael eu monitro'n iawn ac yn arbennig y dylai'r Adran Iechyd:

- wneud gwiriad systematig i wneud yn siŵr bod unrhyw fylchau data yn cael eu canfod a'u taclo'n briodol

- gorffen gweithredu'r setiau data canser cyn gynted ag y bo modd

- bod yn hapus gydag ansawdd y data cynnyrch y mae'n gasglu ar fuddsoddiad mewn gofal lliniarol

- gosod allan, a hynny'n gyhoeddus, cynlluniau clir ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth i alluogi'r Senedd a'r cyhoedd i fonitro cynnydd a chyflawniad yr amcanion, ymrwymiadau, gweithredoedd a cherrig milltir a osodwyd allan yn y *Cynllun*.

Roedd yn argymell ymhellach y dylai'r Comisiwn Ystadegau:

- ddychwelyd at y pwnc yn gynnar yn 2003, gan ofyn am adroddiad cynnydd gan yr Adran Iechyd

- ystyried, yng ngoleuni'r canfyddiadau a'r gwaith mewn meysydd polisi eraill, a ddylai Ystadegau Gwladol anelu at gefnogi monitro holl dargedau allweddol y llywodraeth, ac os felly, sut y gellid wynebu'r anawsterau cynhenid.

Rydym wedi codi'r materion ehangach am swyddogaeth Ystadegau Gwladol i gefnogi targedau llywodraeth gyda'r Ystadegydd Gwladol a byddwn yn dilyn ein trafodaeth gychwynnol gydag ef yng ngoleuni ymateb y llywodraeth i adroddiad yr Arglwydd Sharman *Galw i Gyfrif: Adolygiad Archwiliad ac Atebolrwydd i Lywodraeth Ganolog*.

Mynediad at Ystadegau Gwladol ar drafnidiaeth dros y We

Dewiswyd trafnidiaeth fel maes pwnc pwysig a oedd yn weddol hunan-gynhaliol ac nad oedd y Comisiwn eisoes yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, gwaith sylweddol arno. Hefyd mae'r pwnc o ddiddordeb i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr, o arbenigwyr yn y pwnc (nad ydynt o anghenraid yn arbenigwyr mewn ystadegau) i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Dangosodd yr adroddiad bod swm mawr o wybodaeth ar drafnidiaeth ar gael drwy'r We a bod cryn dipyn o ymdrech wedi ei wneud i'w roi ar gael i'r cyhoedd ac i bobl broffesiynol fel ei gilydd. Gwnaeth rai awgrymiadau penodol ar sut y gellid gwneud gwelliannau pellach i

hygyrchedd ystadegau trafnidiaeth ac roedd yn codi pwnc mwy cyffredinol am pa mor hawdd yr oedd defnyddiwr safle'r DTLR yn cael ei arwain at safle Ystadegau Gwladol (neu fel arall) pan fo hynny'n briodol. Materion cyffredinol eraill y byddwn yn eu harchwilio oedd:

- i ba raddau y gallai defnyddwyr ddisgwyl yn rhesymol bod gwefannau adrannol (neu safle Ystadegau Gwladol) yn gweithio fel mynediad i ddata arall, p'un ai eu bod yn ystadegau swyddogol heb y dynodiad 'Ystadegau Gwladol' neu'r rheiny a gasglwyd y tu allan i Lywodraeth

- a ddylai'r Ystadegau Gwladol i gyd fod ar wefan berthnasol yr adran (fel y deallwn y maen nhw yn achos trafnidiaeth).

Prosiectau parhaol:

Dibynadwyedd Ystadegau Gwladol

Nododd y Comisiwn yn ei drafodaethau cynharaf ei bod yn bwysig cael y niferoedd yn iawn, ond mai ychydig o setiau o ystadegau a fydd yn gant y cant fanwl gywir. Yr hyn sy'n bwysig yw bod defnyddwyr yn gallu deall cyfyngiadau'r data y maent yn eu defnyddio, a barnu a ydynt yn addas i'w diben. Mae cynnwys gwybodaeth dda am ddibynadwyedd ar draws ystod cyfan cynnyrch Ystadegau Gwladol yn dasg fawr.

Cafodd cainc gyntaf y prosiect, sef sefydlu i ba raddau y mae dibynadwyedd Ystadegau Gwladol yn cael ei ddeall a'i gyfleu, ei wneud gan staff y SYG yn gweithio'n agos gyda'n staff ni. Sefydlwyd methodoleg i'w ddefnyddio o fewn y SYG sydd bellach yn symud ymlaen o fewn eu gwaith ar fesurau ansawdd.

Cafodd y rhan gyntaf hon ei chyfyngu i'r SYG oherwydd ymarferoldeb ond bellach mae angen ei hymestyn i gynhyrchwyr Ystadegau Gwladol eraill ac rydym yn gweithio gyda dwy adran o'u gwirfodd (DASA a'r DfES) i archwilio i ba raddau y gall y dull gael ei ddefnyddio'n uniongyrchol mewn adrannau eraill, yn enwedig pan mae ffynonellau gweinyddol yn bwysicach.

Cyfrifiad poblogaeth 2001

Roedd Cyfrifiad poblogaeth Ebrill 2001 yn un o brif weithgareddau Ystadegau Gwladol yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn dasg enfawr a disgwylir y canlyniadau cyntaf yn Awst 2002. Bu i'n tystiolaeth ni ddylanwadu ar adroddiad Pwyllgor y Trysorlys ar y Cyfrifiad. Mae yna dair prif gainc i'n gwaith Cyfrifiad ni:

- gwirio'r adolygiadau cynhwysfawr sy'n cael eu gwneud gan Swyddfeydd Cyfrifiad, i sicrhau bod unrhyw wersi priodol yn cael eu dysgu ac yn dilyn amserlen a bennwyd gan yr adolygiadau hynny. Wrth baratoi i edrych ar gyhoeddusrwydd rydym wedi comisiynu'n hastudiaeth ein hunain ar sut oedd y cyhoedd yn edrych ar y baich o gasglu data o aelwydydd o'r Cyfrifiad

- edrych ymlaen at gyfrannu at y ddadl ar yr angen tymor hirach a natur cyfrifiad poblogaeth yn yr 21ain ganrif. Mae angen gofyn rhai cwestiynau sylfaenol. Rydym wedi comisiynu astudiaeth gynhwysfawr i gymryd golwg gychwynnol ar y pynciau

- ymateb fel sy'n briodol ar faterion eraill. Un mater a fu o bryder arbennig i ni yn ail hanner y flwyddyn oedd y newidiadau hwyr i drefniadau ar gyfer ystadegau ardal fach yn dilyn pryderon am gyfrinachedd.

Mynegeion a datchwyddwyr pris

Nodwyd gennym yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf nifer o bryderon am fynegeion a datchwyddwyr pris, yn cynnwys y rheiny a fynegwyd gan Bwyllgor y Trysorlys. Roedd y rhain yn amrywio o faterion technegol iawn yn ymwneud ag addasu prisiau ar gyfer newidiadau ansawdd mewn meysydd fel technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i rôl Canghellor y Trysorlys yn pennu cwmpawd a diffiniad y Mynegrif Prisiau Adwerthol (RPI).

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad cychwynnol ar y pwnc yn ein cyfarfod ym mis Mawrth a oedd yn dangos yn eglur yr ystod o sialensau technegol sydd o flaen y SYG yn y maes hwn ond yn dangos hefyd bod defnyddwyr yn gyffredinol fodlon â'r gwaith ymchwil a datblygu oedd yn cael ei wneud. Roedd hefyd yn dangos rhywfaint o ansicrwydd ymhlith defnyddwyr am swyddogaeth y Canghellor a goblygiadau hyn i statws y Mynegai fel Ystadegau Gwladol ac rydym wedi tanlinellu'r angen yma am eglurder yn ein sylwadau ar Gôd Arferion drafft Ystadegau Gwladol.

Oherwydd pwysigrwydd y pwnc roeddem yn teimlo ei bod yn briodol ategu'r gwaith hwn gyda chyfweliadau ychwanegol gydag ystod ehangach o bobl y Ddinas ac eraill sydd wedi bod yn ystyried materion RPI. Mae'r gwaith hwn bellach yn mynd rhagddo.

Ydi'r Arolwg Aelwydydd Cyffredinol nawr yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr?

Roedd cryn dipyn o bryder ymhlith defnyddwyr pan roddwyd y gorau am y tro i'r Arolwg Aelwydydd Cyffredinol (General Household Survey - GHS) yn 1997. Cafodd ei ail-gyflwyno wedyn ac roeddem yn bwriadu asesu a ydi hwn bellach yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr. Rhyddhawyd cyhoeddiad GHS arddull newydd ar y We ym mis Rhagfyr 2001. Mae ymgynghoriad cychwynnol ein hymchwilydd gyda Grŵp Defnyddiwr GHS wedi awgrymu ei bod efallai'n rhy gynnar i gael astudiaeth fawr. Rydym yn gwneud astudiaeth gwmpasu fach i brofi hyn.

Prosiectau sy'n disgwyl canlyniadau gwaith ymchwil a datblygu arall

Ar ddechrau'r flwyddyn canfyddom rai meysydd yr oeddem yn bwriadu eu harchwilio wedi i waith cysylltiedig a gynlluniwyd yn barod gan y SYG ddod i ben. Rydym wedi bod yn cadw llygad ar y meysydd hynny sy'n cael eu trafod isod.

Ffigyrau swyddi gwag

Roeddem wedi nodi pryderon, am ansawdd y data ar swyddi gwag sydd wedi eu cofrestru gyda'r Gwasanaethau Cyflogaeth lleol ac am i ba raddau y gellir tynnu casgliadau mwy cyffredinol am lefel cyffredinol swyddi gwag o'r data yma, sydd wrth gwrs, ond yn rhoi rhan o'r darlun. Mewn ymateb i'r rhain, mae'r SYG wedi bod yn gwneud gwaith i gynhyrchu amcangyfrifon rheolaidd wedi eu seilio ar arolygon menter. Rydym yn disgwyl y canlyniadau gyda diddordeb.

Yn y cyfamser, achosodd cyflwyno Employer Direct ddirywiad pellach yn ansawdd y gyfres, o bosibl dros dro. Rydym yn cefnogi penderfyniad yr Ystadegydd Gwladol i atal y dynodiad Ystadegau Gwladol tra'n caniatau i'r ffigyrau gael eu cyhoeddi o hyd. Mae'n anffodus fodd

bynnag na fu iddo gadw rheolaeth dros ffurf y cyhoeddiad i wneud yn siŵr bod gwendidau'r data yn cael eu mynegi'n glir.

Cysondeb ystadegau cyflogaeth a budd-dâl lles

Roeddem wedi nodi'r cwestiwn hwn fel un sy'n darlunio cwestiwn ehangach: cryfderau a gwendidau perthynol data gweinyddol ac wedi ei seilio ar arolwg. Mae dau ddarn penodol o waith mewn meysydd gwahanol o Ystadegau Gwladol ar y gweill ar hyn o bryd:

- bydd materion penodol sy'n ymwneud â budd-daliadau lles yn cael eu goleuo gan ymchwil y mae'r DWP yn ei wneud sydd ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb dechnegol i weld a yw'n bosibl cydweddu cofnodion gweinyddol DWP â chanlyniadau arolwg

- mae'r SYG yn gwneud gwaith ar gysondeb data cymdeithasol-economaidd o wahanol ffynonellau arolwg a chyfrifiad.

Rydym yn parhau i gadw llygad ar hyn ond nid ydym bellach yn disgwyl gwneud ein hymchwil sylweddol ein hunain yn y maes hwn. Fodd bynnag mae'r mater cyffredinol o'r berthynas rhwng data gweinyddol a data wedi ei seilio ar arolwg yn un pwysig i ni.

Materion eraill a ystyriwyd

Yn ogystal â'r materion a ymdriniwyd gan ein rhaglen ymchwil ffurfiol buom hefyd yn ystyried materion amserol, nifer ohonynt wedi eu cynnig gan fudd-ddeiliaid, yn cynnwys defnyddwyr a'r cyfryngau. Roedd nifer o'r rhain yn codi neu'n adlewyrchu materion polisi sylweddol bwysig yn eu hunain ond roddent hefyd yn taflu goleuni ar faterion ystadegol croestoriadol sy'n debyg i'r rhai a nodwyd yn ein rhaglen ymchwil.

Roedd defnyddiau Ystadegau Gwladol wrth fesur targedau a pherfformiad y tynnon ni sylw atynt wrth ddewis edrych ar *Gynllun Canser yr NHS* yn codi mewn cyd-destunau eraill:

- roeddem yn poeni i ddechrau am newidiadau yn y ffordd y gosodwyd targedau ar gyfer symud ceiswyr lloches. Roeddem yn falch i weld bod ystadegwyr y Swyddfa Gartref wedi llwyddo'n gyflym i newid y ffordd yr oeddent yn casglu data er mwyn cadw i fyny â'r newidiadau polisi yma a chyflwyno'r ffigyrau mewn ffordd oedd yn ei gwneud yn glir pa ffigyrau allai ac na allai gael eu cymharu

- tynnwyd ein sylw at rai o'r materion cymhleth sy'n sail i'r ffordd y mae ystadegau canlyniadau camau allweddol ysgolion yn cael eu cymharu o flwyddyn i flwyddyn a'r potensial am lithriad systematig. Rydym wedi gofyn i'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth ein cynghori ar i ba raddau y mae polisi ac ymarfer wedi eu gwreiddio mewn ymchwil

- buom yn ystyried pwyntiau sy'n gysylltiedig ag ystadegau rhestri aros ysbyty, yn cynnwys y gostyngiad yn y gyfres ychydig cyn yr etholiad cyffredinol. Derbyniom sicrhad yr Adran Iechyd bod y ffigyrau wedi eu casglu a'u gwirio yn y ffordd arferol a bod y gostyngiad yn adlewyrchiad o batrwm tymhorol cryf. Ond roedd hyn yn codi cwestiynau eraill: a oedd cyflwyniad gwreiddiol y data yn rhoi digon o wybodaeth am y patrwm tymhorol; a beth yw ei achos. Bydd angen i ni fynd ar ôl y rhain.

- mae targedau i ostwng tlodi plant yn rhoi mwy o bwyslais ar ystadegau aelwydydd incwm isel a oedd yn arfer bod ar gael flwyddyn ar ôl y cyfnod dan sylw. Mae'r rhain wedi eu seilio ar arolwg aelwyd sy'n gofyn am gryn ddadansoddiad a derbyniom sicrhad y DWP y byddant gyda'r gorau yn Ewrop, y tu ôl i'r UDA yn unig, wrth ddarparu ystadegau dosbarthiad incwm polisi-berthnasol amserol. Fodd bynnag mae hyn yn codi cwestiynau am y ffordd orau i fonitro targedau sy'n ymwneud â chanlyniadau polisïau cyhoeddus yn y pen draw yn hytrach na'r broses o gyflwyno gwasanaeth

- mae cynlluniau i gynyddu cyfraddau cymryd rhan wedi codi cwestiynau am union ddiffiniad y sector addysg uwch. Er nad yw data perthnasol yn Ystadegau Gwladol roeddem yn falch i glywed bod y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant Ystadegau Gwladol yn edrych ar hyn ac rydym wedi gofyn iddo adrodd yn ôl i ni ym mis Gorffennaf.

Roedd y defnydd o Ystadegau Gwladol (ac ystadegau swyddogol eraill) mewn tablau cynghrair yn codi nifer o'r un cwestiynau ochr yn ochr â dau gwestiwn ychwanegol: i ddechrau, roedd y defnydd o ddata datgrynhöol daearyddol neu lefel uned unigol o systemau ystadegol a gynlluniwyd yn bennaf i gynhyrchu data dibynadwy ar lefel grynhöol yn codi cwestiynau ynglŷn ag addasrwydd i'r diben; yn ail, hyd yn oed pe bai'r data'n berffaith,

byddai'r amrywiad hap sydd mewn, er enghraifft, cyfraddau wedi eu seilio ar niferoedd bach o ddigwyddiadau, yn golygu bod angen cymryd gofal wrth ddehongli. Mae'n rhaid i rywun fod yn olaf.

Roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cynllunio mewn egwyddor i roi'r gorau i gasglu ystadegau anghydfod llafur. Mae'r cynlluniau yma wedi eu gollwng erbyn hyn, yn dilyn cwestiynau oddi wrthym ni a chwynion gan nifer o ddefnyddwyr. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud penderfyniadau anodd am flaenoriaethau ond mae'r enghraifft hon yn amlygu'r angen am fwy o eglurder am ymgynghoriad defnyddiwr a'r ffordd y mae hyn yn bwydo i mewn i'r gosod blaenoriaethau drwyddi draw. Gobeithiwn y bydd y protocolau sydd ar y ffordd yn mynd i'r afael â hyn.

Roedd problemau gydag ystadegau ased cronfa bensiwn a'u tynnu ymaith wedyn yn codi cwestiynau am bolisi sicrhad ansawdd a diwygio. Cawsom rai trafodaethau gyda'r Ystadegydd Gwladol ac rydym yn edrych ymlaen at gael gweld ei adroddiad ar hyn.

Codod un defnyddiwr rai pryderon gyda ni am archifo data yn electronaidd: lle mae tablau cyfeiriol yn cael eu cyhoeddi ar y We yn hytrach nag ar bapur fel yn y gorffennol, gall hyn ei gwneud yn anodd cyfeirio'n ôl at ddata manwl yn y blynyddoedd cynt. Rydym yn sylweddoli bod defnyddio technoleg fodern yn effeithiol yn codi sialensau arbennig yn y maes hwn ac rydym yn edrych ymlaen at weld y protocol ar reoli, dogfennu a chadw data.

Mae nifer o'r systemau presennol ar gyfer olrhain gofal NHS wedi eu seilio ar y sefydliad lle y darperir y gofal ac felly nid ydynt yn ymdrin â'r gofal a roddir i gleifion NHS mewn ysbytai preifat. Mae cytundeb y llywodraeth gyda'r sector preifat yn debyg o arwain at lefelau cynyddol o weithgaredd o'r fath gyda'r effaith posibl o ystumio data i edrych ar dueddiadau cyffredinol mewn gofal iechyd. Rydym wedi lleisio'n pryder gyda'r Adran Iechyd ac yn wreiddiol addawyd adroddiad i ni erbyn diwedd 2001. Rydym bellach yn deall bod yr Adran Iechyd yn dal i ystyried gwaith ar wybodaeth o'r sector preifat yng nghyd-destun ehangach monitro gweithgaredd NHS sy'n digwydd mewn lleoliadau gwahanol a bydd yr Arglwydd Hunt, Is-Ysgrifennydd Seneddol yn yr Adran Iechyd, yn ysgrifennu at y Comisiwn am y materion yma.

Ein rhan yn rhwydwaith fewnol Ystadegau Gwladol

Roedd y *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol* yn rhagweld cylch cynllunio lle byddai'r Ystadegydd Gwladol yn paratoi rhaglen lefel uchel ar gyfer Ystadegau Gwladol ac wedyn adroddiad blynyddol ar berfformiad Ystadegau Gwladol ac y byddem yn rhoi sylwadau ar y ddau yma.

Crynodeb o'r prif sylwadau ar y rhaglen lefel-uchel ar gyfer Ystadegau Gwladol 2001-04
• rhoddom groeso i'r rhaglen lefel uchel a chydnabod y bydd mabwysiadu Ystadegau Gwladol yn llawn yn cymryd nifer o flynyddoedd
• roedd y weledigaeth strategol yn gam pwysig ond bydd yn hanfodol bod y rhaglen lefel uchel nesaf yn mynd i'r afael â blaenoriaethau yn eglur, gan ystyried costau cydymffurfio â'r sgiliau sydd angen, yn ogystal ag adnoddau ariannol.

Adroddiad blynyddol Ystadegau Gwladol cyntaf, *2000-01*

Wrth roi sylwadau ar yr adroddiad blynyddol, cydnabuom y newid mawr y mae'r weledigaeth strategol ar gyfer Ystadegau Gwladol yn gofyn amdano, gan gynnal safonau proffesiynol uchel yr un pryd. Roeddem yn poeni er ei fod yn adlewyrchu cyflawniadau pwysig mewn nifer o feysydd, nad oedd yn darparu datganiad clir o pa gynnydd a wnaed hyd yma a beth arall oedd angen i wneud y weledigaeth yn realiti.

Adolygiadau ansawdd a phrosesau cysylltiedig

Agwedd allweddol arall o drefniadau Ystadegau Gwladol yw rhaglen dreigl o adolygiadau o gynnyrch allweddol dros gyfnod o bum mlynedd. Nid ydym fel rheol yn cymryd rhan uniongyrchol yn y rhain - er y gallwn, fel yn achos GDP rhanbarthol, gynnig sylwadau ar gwmpawd arfaethedig yr adolygiadau. Rydym yn derbyn yr adroddiadau terfynol yn awchus, fodd bynnag, gan chwilio am wersi cyffredinol ac ystyried sut y mae'r broses yn gweithio drwyddi draw. Mae'r adolygiadau yn adlewyrchu llawer iawn o waith ar draws Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ond mae'n dal yn ddyddiau cynnar; mae'r adolygiadau yma yn cymryd amser i'w terfynu. Yn ystod y flwyddyn derbyniom saith o adroddiadau wedi eu hargraffu, ac mae yna fwy yn yr arfaeth. Ymhlith yr adroddiadau diweddar oedd tri yn ymwneud â budd-daliadau nawdd cymdeithasol sy'n codi cwestiynau ehangach diddorol yn ymwneud â defnydd data gweinyddol.

Rydym yn cefnogi pwyslais yr Ystadegydd Gwladol ar ansawdd Ystadegau Gwladol ac yn croesawu'r cynlluniau y mae ef wedi rhoi ar waith yn y flwyddyn i edrych eto ar brif bwynt y rhaglen adolygu ansawdd, i roi proffil mwy penodol i adolygiadau methodolegol yn y broses gynllunio, ac i adolygu'r defnydd o batrymluniau 'dadansoddiad o arfer cyfredol' sy'n helpu'r

cynhyrchwyr eu hunain i asesu'r prosesau sy'n sail i Ystadegau Gwladol. Yn ystod y flwyddyn sy'n dod byddwn yn ystyried pa mor dda y mae'r cydrannau rhyngweithiol yma yn gweithio yn gyffredinol.

Adnoddau

Cyllid

Yn dibynnu ar angen, mae cyllid grant o hyd at £1.35 miliwn y flwyddyn ar gael i'r Comisiwn ar gyfer ei flynyddoedd cyntaf. Roedd gwariant ar gyfer 2001-02 ychydig o dan £1 miliwn, a phrif elfennau hwn oedd llety, staffio a chostau perthynol a systemau TG mewnol. Disgwylir iddo fod yn uwch yn 2002-03 wrth i'r rhaglen waith ddatblygu a'r gwariant ar ymchwil a gomisiynwyd o'r tu allan a gwaith archwilio gynyddu. Bydd hefyd yn adlewyrchu costau blwyddyn lawn aelodau staff a ymunodd yn 2001-02.

Y lefelau staffio presennol a'r defnydd o gontractwyr

Ar hyn o bryd mae gan y Comisiwn staff o naw. O'r rhain, mae pedwar wedi eu secondio o'u cyflogwyr parhaol, ac mae gan dri gytundebau tymor sefydlog gyda'n adran nawdd yn dilyn cystadlaethau agored a gynlluniwyd i gwrdd â'n hanghenion penodol. Llenwyd dwy swydd gefnogi drwy ddefnyddio staff dros dro tra'n bod yn cadarnhau'n anghenion, ond rydym yn bwriadu llenwi un o'r swyddi yma ar sail tymor hirach.

Byddwn yn parhau i wneud defnydd priodol o arbenigwyr allanol ar gyfer eu harbenigedd penodol a'u hawdurdod mewn meysydd arbennig ac i ategu neu ddod yn lle'n adnoddau mewnol ar brosiectau mwy.

Golwg ymlaen 2002-03

Bydd nifer o'r gweithgareddau penodol a drafodwyd uchod yn parhau i'r flwyddyn ariannol newydd. Pedwar pwnc y byddwn yn eu dilyn fydd:

- cyfrinachedd data personol, yn dilyn ymlaen o Gyfrifiad 2001 ac yn archwilio hyn gyda'r budd-ddeiliaid perthnasol

- y berthynas hollbwysig rhwng Ystadegau Gwladol a thargedau llywodraeth

- dibynadwyedd Ystadegau Gwladol: dylai defnyddwyr allu deall cyfyngiadau'r data y maent yn eu defnyddio a barnu a ydynt yn addas at eu dibenion

- baich casglu ar gyflenwyr data crai.

Gweithgareddau eraill a fydd yn arbennig o bwysig i gefnogi'n gwaith ar hybu newid cyfansoddiadol a diwylliannol yn y flwyddyn sy'n dod fydd:

- asesu'r angen am ddeddfwriaeth ystadegau: cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar gwmpawd y meysydd i'w hystyried a chomisiynu adolygiad llenyddiaeth

- cael Côd Arferion Ystadegau Gwladol a'i brotocolau ategol yn iawn, datblygu fframweithiau i fonitro a sylwebu ar y Côd ei hun, mewn cydweithrediad â'r Ystadegydd Gwladol.

Bydd ein rhaglen ymchwil a chasglu gwybodaeth yn datblygu mewn ymateb i faterion cyfoes a byddwn hefyd yn meddwl yn ddifrifol am Gyfrifiad 2011 wedi ei seilio ar ein profiad o adolygiad Cyfrifiad 2001.

Atodiadau

Atodiad A: Rhestr o adroddiadau

Adroddiadau Ymchwil

Building Links with Stakeholders: our general approach and report of progress so far. Adroddiad Rhif 1 y Comisiwn Ystadegau, Rhagfyr 2000.

Janet Trewsdale a Gill Eastabrook, *National Statistics to Monitor the NHS Cancer Plan: report of a pre-scoping study*. Adroddiad Rhif 2 y Comisiwn Ystadegau, Mai 2001.

Kenneth F. Wallis, *Report of a Scoping Study on Seasonal Adjustment Methods at the Office for National Statistics*. Adroddiad Rhif 3 y Comisiwn Ystadegau, Mehefin 2001

Malcolm Jones, *Statistics Commission's Views on Topics to be Covered in the Office for National Statistics Review of Regional Accounts*. Adroddiad Rhif 4 y Comisiwn Ystadegau, Medi 2001.

Implementation of the Review of Revisions to the Average Earnings Index Report: Statistics Commission's consideration of the ONS progress report. Adroddiad Rhif 5 y Comisiwn Ystadegau, Ionawr 2002

Steer Davies Gleave, *Access to National Statistics on Transport via the Web*. Adroddiad Rhif 6 y Comisiwn Ystadegau, Ionawr 2002

Janet Trewsdale a Gill Eastabrook, *National Statistics to Monitor the NHS Cancer Plan: report of a scoping study.* Adroddiad Rhif 7 y Comisiwn Ystadegau, Chwefror 2002.

Adrodddiadau Blynyddol

Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ystadegau 2000-01. Y Llyfrfa, Gorffennaf 2001.

Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ystadegau 2001-02. Y Llyfrfa, Gorffennaf 2002.

Tystiolaeth a Sylwadau

Submission of Evidence to the Treasury Sub-committee Inquiry into National Statistics: 16 November 2000. Tachwedd 2000.

Response to the Treasury Committee Report on National Statistics. Mawrth 2001.

Comments on the High-Level Programme for National Statistics. Gorffennaf 2001.

Comments on the National Statistics Annual Report 2000-01. Tachwedd 2001.

Submission of Evidence to the Treasury Sub-committee Inquiry into the 2001 Census in England and Wales. Tachwedd 2001.

Draft National Statistics Code of Practice: response of the Statistics Commission. Mawrth 2002.

Atodiad B: Y Comisiynwyr

Mae'r Comisiynwyr yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd, ond mae gennym un peth yn gyffredin: dealltwriaeth dda o faterion ystadegol a gwerth ystadegau dibynadwy mewn trafodaeth ddemocrataidd.

Y Cadeirydd

Sir John Kingman yw Cadeirydd y Comisiwn. Yn ddiweddar cafodd ei wneud yn Gyfarwyddydd Sefydliad Isaac Newton i'r Gwyddorau Mathemategol yng Nghaergrawnt, a chyn hynny roedd yn Is-Ganghellor Prifysgol Bryste ers 1985. Mae'n Ystadegydd Siartredig ac yn gyn Lywydd y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol. Bu'n Gadeirydd y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth a Pheirianneg, ac mae wedi gweithredu fel cyfarwyddydd an-weithredol o IBM (UK) Holdings Ltd, Smithline Beecham plc a'r Grŵp Technoleg Prydeinig.

Y Comisiynwyr

Colette Bowe yw Dirprwy Gadeirydd Cyfleustodau Thames Water, cadeirydd Gwasanaeth Ombwdsmon Telecomms, a bu'n Gadeirydd busnes cronfa gydfuddiannol Ewropeaidd Fleming Asset Management. Mae wedi gweithio yn y Ddinas ers 12 mlynedd, yn cynnwys 4 blynedd fel Prif Weithredydd y PIA, rheolydd y ddinas. Cyn hynny treuliodd 11 mlynedd yn yr Adran Diwydiant a Masnach, lle yr ymunodd fel economegydd proffesiynol. Mae hi hefyd yn aelod o Gyngor Coleg y Frenhines Mary.

Sir Kenneth Calman yw Is-Ganghellor a Warden Prifysgol Durham. Cyn hynny ef oedd Prif Swyddog Meddygol yr Adran Iechyd a bu'n cadeirio Pwyllgor Gwaith Sefydliad Iechyd y Byd. Mae wedi ei hyfforddi fel llawfeddyg ac mae ganddo ddiddordeb arbennig ym maes triniaeth ac ymchwil canser. Ar hyn o bryd ef yw Cadeirydd y Sefydliad Dysgu ac Addysgu.

Patricia Hodgson yw Prif Weithredydd y Comisiwn Teledu Annibynnol a chyn hynny roedd yn Gyfarwyddydd Polisi a Chynllunio yn y BBC. Gwasanaethodd am chwe mlynedd fel Aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chyfuniadau (bellach y Comisiwn Cystadleuaeth) a bu'n Gymrawd Cyswllt o Goleg Newnham, Caergrawnt.

David Rhind yw Is-Ganghellor a Phennaeth Prifysgol y Ddinas, Llundain. Mae ef hefyd yn cadeirio adolygiad gwladol o'r gwyddorau cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae'n Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol, a than 1998 ef oedd Cyfarwyddydd Cyffredinol Arolwg Ordnans, sefydliad mapio gwladol Prydain ac adran llywodraeth. Bu'n Aelod Cyngor o'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac o'r Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol. Yn y gorffennol, chwaraeodd ran ganolog mewn adeiladu cronfeydd data ystadegol pwysig, yn arbennig data cyfrifiad.

Janet Trewsdale yw Cadeirydd Cyngor Economaidd Gogledd Iwerddon ac mae'n Uwch Ddarlithydd mewn Economeg ym Mhrifysgol Queen's, Belfast. Mae'n Ystadegydd Siartredig. Mae hi'n Gyn-Lywydd y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol ac yn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Ystadegau (Gogledd Iwerddon). Bu'n cynrychioli'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol ar y Cyngor Defnyddwyr Ystadegau am 19 mlynedd.

Derek Wanless yw un o gyfarwyddyddion Northern Rock plc, Forces Group Ltd, Busnes yn y Gymuned a Nesta Enterprises Ltd. Mae'n Gadeirydd Sefydliad Hyfforddi Gwladol Gwasanaethau Ariannol ac yn Ymddiriedolydd y Gwaddoliad Gwladol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau. Yn Ebrill 2002 cwblhaodd Arolwg ar gyfer Canghellor y Trysorlys, 'Sicrhau ein Iechyd yn y Dyfodol: Cymryd Golwg Tymor Hir'. Bu'n gweithio i NatWest am 30 mlynedd ac roedd yn Brif Weithredydd Grŵp iddo am 7 mlynedd. Mae ganddo MA mewn Mathemateg o Brifysgol Caergrawnt ac mae wedi cymhwyso'n Aelod o Sefydliad yr Ystadegwyr (MIS).

Martin Weale yw Cyfarwyddydd y Sefydliad Gwladol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac mae wedi ysgrifennu'n eang ar ystadegau economaidd. Cyn hynny bu'n darlithio mewn Economeg ym Mhrifysgol Caergrawnt, lle roedd yn Gymrawd o Goleg Clare, a chyn hynny, bu'n gweithio yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym Malawi. Mae'n Gymrawd Anrhydeddus o Sefydliad yr Actiwarïaid ac yn Drysorydd Ymddiriedolaeth Ymchwil clefyd Alzheimer.

Y Prif Weithredydd

Gill Eastabrook yw Prif Weithredydd y Comisiwn Ystadegau. Treuliodd y rhan fwyaf o'i gyrfa yng Ngwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth fel defnyddiwr a chynhyrchydd ystadegau. Yn fwyaf diweddar, hi oedd y pennaeth ystadegau gweithlu yn Adran Weithredol yr NHS a chyn hynny bu'n gweithio yn nhîm arolwg gwariant cyhoeddus yr Adran Iechyd. Mae ganddi MSc mewn Ystadegau o'r London School of Economics ac mae'n Ystadegydd Siartredig.

Atodiad C: Perfformiad yn erbyn amcanion 2001-2002

AMCANION	CYFLAWNIADAU
Datblygu ymhellach a gweithredu ei raglen waith archwilio ac ymchwil, i gynnwys cynnal amrywiaeth o brosiectau yn ystod y flwyddyn. Hyn yn cynnwys gwaith cwmpasu ac amserlennu cychwynnol i adolygiad y Cyfrifiad.	Cwblhawyd pum prosiect a chynhyrchwyd chwe adroddiad. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn meysydd eraill, yn cynnwys amrywiaeth o waith ar y Cyfrifiad.
Rhoi sylwadau ar Gôd Arferion Ystadegau Gwladol, o fewn y cyfnod ymgynghori ffurfiol, ac yna monitro sut mae'n gweithio.	Cyflwynwyd yr ymateb erbyn y terfyn amser. Gweler tudalen XX am grynodeb o'r sylwadau.
Gwneud yn siŵr ein bod mewn sefyllfa dda i roi sylwadau ar raglen lefel uchaf nesaf Ystadegau Gwladol, yn enwedig yn y meysydd hynny lle roedd diffyg gwybodaeth yn ein hatal rhag cynnig sylwadau eleni.	Nid oedd rhaglen lefel-uchel 2002/03-2004/05 ar gael i roi sylwadau arni erbyn diwedd y flwyddyn, fodd bynnag rydym wedi gwneud gwaith paratöol ar gostau, cyn belled ag yr oedd y wybodaeth oedd ar gael yn ei ganiatau. Mae ymweliadau â chynhyrchwyr mewn adrannau llywodraeth, cyfarfodydd gyda defnyddwyr a gohebiaeth gan fudd-ddeiliaid yn gyffredinol wedi gwella'n dealltwriaeth o'r materion.
Parhau â gwaith ar y ddadl dros a natur posibl deddfwriaeth ystadegau.	Cafodd y Comisiwn y dasg yn y *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol* o adolygu'r ddadl bosibl dros ddeddfwriaeth ystadegau ddwy flynedd ar ôl cael ei sefydlu. Adolygwyd y sefyllfa ym mis Ionawr 2002 a chytunwyd ar y dull i'w gymryd ym mis Mawrth i'w symud ymlaen yn gynnar yn 2002-03.

Atodiad CH: Rhestr dermau

Grwpiau ac ymdriniaeth o ystadegau

Ystadegau Gwladol – ar hyn o bryd y cynnyrch hynny sy'n cael eu rhestru yn y daflen gwmpawd wreiddiol a ddosbarthwyd gyda'r *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol*. Maent yn amodol ar y polisïau a'r trefniadau a amlinellwyd yn y ddogfen honno a bydd Côd Arferion Ystadegau Gwladol yn eu gwarchod.

Cwmpawd (Ystadegau Gwladol) – yr ystod o gynnyrch a ddynodwyd gan Weinidogion i'w cynnwys mewn Ystadegau Cenedlaethol. Bydd yn esblygu dros amser. Yr Ystadegydd Gwladol fydd yn gyfrifol am ansawdd proffesiynol y cynnyrch.

Ystadegau llywodraeth – y rheiny a gynhyrchwyd gan, neu o dan reolaeth, aelodau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS.) Yn ogystal â'r Ystadegau Gwladol a gynhyrchwyd gan y GSS, bydd ystadegau llywodraeth yn cynnwys cynhyrchion GSS eraill na chafodd eu cynnwys yng nghwmpawd Ystadegau Gwladol, a dadansoddiad ystadegol a ddefnyddiwyd mewn Llywodraeth ond nas cyhoeddwyd. Mae ystadegau llywodraeth i gyd yn cael eu rheoli gan y *Côd arferion ystadegau swyddogol* presennol a gan safonau proffesiynol eraill a hybwyd gan y GSS.

Ystadegau swyddogol – cynnyrch ystadegol a gynhyrchwyd gan neu at ddiben llywodraeth. Byddai hyn yn cynnwys Ystadegau Gwladol a chynnyrch GSS arall, ond gallai hefyd gynnwys ystadegau adrannol a gynhyrchwyd gan swyddogion nad ydynt yn rhan o'r GSS, yn ogystal ag ystadegau a gynhyrchwyd gan gyrff cyhoeddus eraill.

Nodweddion cyffredinol ystadegau a systemau ystadegol

Integriti – defnyddir y term hwn gan y Comisiwn yn yr ystyr culach o annibynniaeth a rhyddid rhag ymyrraeth. (Mae weithiau'n cael ei ddefnyddio gan eraill i gynnwys agweddau o ansawdd a chyflawnder hefyd.)

Perthnasedd – y graddau y mae'r cynnyrch yn mynd i'r afael â'r cwestiynau pwysig.

Ansawdd – bod yn ddigon cywir i'w diben arfaethedig ac wedi eu seilio ar y fethodoleg orau sydd ar gael. Mae defnyddwyr angen gwybodaeth am ddibynadwyedd er mwyn barnu a yw ystadegau yn addas ar gyfer eu diben arbennig. (Weithiau'n cael ei ddefnyddio gan eraill i gynnwys hefyd agweddau o berthnasedd ac amseroldeb.)

Dibynadwy – yn ateb syniadau (rhesymol) am integriti ac ansawdd.

Amseroldeb – cael eu cynhyrchu i amserlen sy'n briodol i'w diben(ion).

Dilysrwydd – a yw amcangyfrif yn mesur yr hyn y'i bwriadwyd i'w fesur; yn gysylltiedig â gwahaniaethau cysyniadol yn ogystal â gwallau mesur

Dibynadwyedd – caiff y term hwn ei ddefnyddio gan y Comisiwn mewn ystyr cyffredinol iawn i gynnwys pob agwedd o gywirdeb a dilysrwydd (nid yn yr ystyr mwy penodol o atgynyrchioldeb a ddefnyddir wrth lunio agwedd).

Cywirdeb – y cyfuniad o fod yn gywir ac yn ddi-duedd.

Tuedd– pa mor bell y mae cyfartaledd amcangyfrif yn gorwedd o wir werth yr hyn y mae'n ei amcangyfrif.

Manylder – y graddau y mae disgwyl i werth amcangyfrif fod yn agos i'w gyfartaledd gwaelodol.

Prosesau

Asesiad ansawdd – gwirio a yw data yn cwrdd â'r safonau ansawdd priodol.

Sicrhad ansawdd – gwneud yn siŵr bod data yn cwrdd â'r safonau ansawdd priodol.

Archwiliad ystadegol – gwerthusiad o'r prosesau y mae set arbennig o ystadegau yn cael eu crynhoi a'u cynhyrchu drwyddynt.

Ymgynghoriad defnyddiwr – darganfod gan ddefnyddwyr pa fath o ystadegau y maent eisiau/eu hangen a beth yw eu barn am y rhai y maent yn eu cael.

Ymatebolrwydd defnyddiwr – (gweler hefyd perthnasedd) cynnal a gweithredu ar ganlyniadau ymgynghoriad defnyddiwr

Swyddogaethau

Defnyddwyr – unigolion a sefydliadau sy'n gwneud defnydd o ystadegau.

Darparwyr – y rheiny sy'n darparu data crai, er enghraifft drwy lenwi holiaduron, cymryd rhan mewn arolygon neu anfon gwybodaeth i mewn am eu busnesau.

Cyflenwyr – fel darparwyr.

Cynhyrchwyr – y rheiny sy'n cynhyrchu ystadegau o ddata crai, er enghraifft staff y SYG.

Pennaeth Proffesiwn – yr uwch unigolyn dynodedig sy'n gyfrifol i'r Ystadegydd Gwladol am integriti proffesiynol canlyniadau adrannau llywodraeth a chyrff cysylltiedig sy'n cynhyrchu Ystadegau Gwladol neu ystadegau swyddogol, neu sydd â grŵp o ystadegwyr swyddogol.

Arall

Costau cydymffurfio – faint o amser, arian ac adnoddau eraill sy'n cael eu cymryd i ddarparu'r data crai y mae ystadegau'n cael eu cynhyrchu ohonynt.

Arferion rhyddhau – sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am pa ddata i'w rhyddhau i bwy a phryd.

Data crai – y dychweliadau unigol a holiaduron wedi eu llenwi y mae ystadegau'n cael eu cynhyrchu ohonynt.